**Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL EUR-01-02(p3)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 13 Chwefror 2002 |
| **Amser:** | 9.30am |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| **Teitl:** | Papur Gwyn ar Lywodraethu – Cyflwyniadau Ysgrifenedig |

**Diben**

1. Mae'r papur hwn yn ymwneud â'r cyflwyniadau ysgrifenedig ar gynnwys y Papur Gwyn ar Lywodraethu i'w ystyried yng nghyfarfod y pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ar 13 Chwefror 2002.

**Cefndir**

2. Yn ei gyfarfod ym Mrwsel ar 5 Rhagfyr 2001, cytunodd y pwyllgor i wahodd cyflwyniadau ysgrifenedig gan gyrff o'r sector cyhoeddus a phreifat ledled Cymru ar gynnwys y Papur Gwyn ar Lywodraethu.
3. Gwahoddodd y clerc gyflwyniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg gan sefydliadau ar 19 Rhagfyr 2001. Mae copi o'r llythyr yn amgaeëdig yn Atodiad F a rhestr o'r sefydliadau a wahoddwyd i ymateb yn Atodiad G.

**Prif Themâu**

4. Mae'r prif themâu sy'n amlwg yn y cyflwyniadau ysgrifenedig wedi'u nodi isod i'r pwyllgor roi ystyriaeth iddynt:

- Croesewir natur ymgynghorol y Papur Gwyn.
- Mae'n bwysig datblygu proses bartneriaeth strwythuredig rhwng pob lefel o lywodraeth a budd-ddeiliaid yng Nghymru. Mae rôl Canolfan Ewropeaidd Cymru yn bwysig i'r broses bartneriaeth hon, yn arbennig er mwyn ei gwneud yn bosibl i fudd-ddeiliaid gael gafael ar wybodaeth Ewropeaidd berthnasol.
- Mae angen i'r broses o gyfathrebu gwybodaeth fod yn fwy strwythuredig. Mae angen i'r wybodaeth a ddaw o Ewrop fod yn gyson o ran ei heglurder a'i hamcanion. Er mwyn hwyluso'r broses hon, dylid rhoi mwy o rôl i swyddfeydd rhanbarthol y Comisiynau. Mae hefyd yn bwysig bod y ddeialog sy'n digwydd ar lefel ranbarthol, genedlaethol ac Ewropeaidd yn cael ei rhannu â sefydliadau lleol. Gallai'r Cynulliad ddatblygu ei rôl o ran cydlynu safbwyntiau yng Nghymru ar faterion Ewropeaidd fel rhan o'r broses hon.
- Mae diddordeb wedi'i fynegi mewn contractau teiran er y gofynnwyd am ragor o wybodaeth ar y ffordd y maent yn gweithio.

- Pwysleisir pa mor bwysig yw atebolrwydd Ewropeaidd.
- Dylid sicrhau bod mwy o gymorth ar gael i lywodraeth, busnesau a dinasyddion gydymffurfio â chyfraith Ewrop. Byddai ombwdsmon ar lefel aelod-wladwriaeth hefyd i'w groesawu.
- Dylid ystyried yr angen i ddatblygu amcanion strategol cydlynol ar lefel Ewropeaidd. Dylai'r berthynas rhwng y Cyngor a'r Senedd hefyd fod yn fwy agored. Dylai Cyfarwyddwyr Cyffredinol, yn ogystal, gydweithio'n agosach ar faterion polisi trawsbynciol.

**Argymhelliad**

1. Bod y Pwyllgor yn ystyried ymatebion y canlynol:

- Y Cyngor Cenedlaethol – ELWa (Atodiad A)
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (Atodiad B)
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Atodiad C)
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru - ELWa (Atodiad D)
- Awdurdod Datblygu Cymru (Atodiad E)
- Nid oedd gan Asiantaeth Amgylchedd Cymru unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y materion a drafodwyd yn y Papur Gwyn.

**Chwefror 2002 Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**